| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 21 Mai, 2015 |
| **TEITL** | Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16 – 2017/18 |
| **PWRPAS** | Adrodd ar gynllun perthnasol i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu am sylw pellach. |
| **AELOD CABINET** | Cyng. John Wyn Jones |

## 1. Cefndir

1.1 Bu i'r Cabinet yn ei gyfarfod 16 Rhagfyr, 2014 benderfynu bod cynllun arbedion effeithlonrwydd gynigwyd gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn sylw pellach gan y Pwyllgor Craffu ac yn benodol:

PB24 Trefn Wahanol o Newid Lampau: 'Pwyllgor Craffu Cymunedau i edrych a chymharu'r cynnig gyda'r drefn bresennol ("bulk change") er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir. Cyflwynwyd y drefn 'bulk change' fel ffordd o arbed arian yn y lle cyntaf.

1.2 Mae'r Adroddiad hwn i'r pwrpas. Bydd argymhellion y Pwyllgor hwn ar y cynllun dan ystyriaeth yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r Cabinet am benderfyniad terfynol.

## 2. PB24. Trefn Wahanol o Newid Lampau £97k (2015/16)

2.1 Yn bresennol mae'r Cyngor yn gweithredu newid lampau yn ei lusernau golau stryd ar amlder o 3 blynedd gan ddilyn trefn o newid crynswth h.y. newid goleuadau stryd neu ardal gyfan yr un pryd, er bod rhai llusernau yn parhau i weithio.

2.2 Cyflwynwyd y drefn o newid crynswth i bwrpas:

- osgoi cael dirywiad yn safon golau o'r llusern wedi 3 blynedd (gan fod y lampau wedi ei ddylunio i fod yn weithredol am 3 blynedd).
- cael amserlen cynnal fwy effeithiol lle nad oedd angen ail-ymweld a stryd neu ardal.
- cael lefelau goleuo cyson ar gwblhau'r newid.

2.3 Mae datblygiadau sylweddol diweddar mewn technoleg goleuo, ac yn benodol lle mae oes gweithredol lampau yn ymestyn dros fwy o flynyddoedd, yn diddymu'r angen newid llusernau dan y drefn newid crynswth.

2.4 Mae oes gweithredol llusern LED rhwng 7 a 10 mlynedd a gall y cyfnod hwn gael ei ymestyn gyda chyflwyno offer rheoli e.e. sy’n caniatáu pylu. Nid yw yn effeithiol na’n ymarferol cael trefn o newid crynswth i llusernau o ganlyniad.

2.5 Dyma’r datblygiadau mewn technoleg sy’n caniatáu hyn:

- gyda technoleg LED, nid oes angen newid crynswth
- mae safon well o lusernau nawr ar gael gyda oes weithredol hirach
- mae offer swîts rheoli goleuo yn caniatau ymestyn oes y llusern ymhellach
- mae lefel golau o’r llusern yn gyson drwy ei oes gweithredol
- mae safon well o olau i’w gael gyda llusernau diweddar.

2.6 Mae Cyngor Gwynedd gyda rhaglen gynhwysfawr o newid ei system goleuadau stryd i rai mwy effeithiol LED gyda offer swîts ar gyfer pylu (rhai i ddiffodd rhan o’r nos lle’n addas) ac er mwyn ymestyn oes y llusern, a lleihau costau ynni ac allyriadau carbon.

2.7 O ganlyniad, mae posib diddymu’r drefn o newid llusernau ar raddfa eang ac ar gylch o 3 blynedd. Rhagwelir y byddai hyn yn sicrhau arbedion o £97000 blynyddol i’r Cyngor mewn costau cynnal goleuadau stryd.

2.8 Yr uchod yw sail Cynllun Arbedion PB24: Trefn Wahanol o Newid Lampau.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu am ei sylwadau parthed y cynllun arbediad effeithiolrwydd arfaethedig dan sylw ac i bwrpas galluogi’r Cabinet wneud penderfyniad terfynol ar y cynllun hwn.